# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BORTH A GYNHALIWYD O BELL DROS ZOOM

NOS LUN 4 EBRILL 2022 AM 19.00 O'R GLOCH

| | | |
|---|---|---|
| Presennol: | Cadeirydd: | H Hughes |
| | | C Bainbridge |
| | | R Dalton |
| | | M Griffiths |
| | | J James |
| | | G B Jones |
| | | A J Morris |
| | | D Pryce Jones A Thomas |
| | | D Tweedy |
| Yn bresennol: | Clerc: | M Walker |
| | | 6 aelod o'r Cyhoedd. |

**YMDDIHEURIADAU**

351. Y Cynghorydd Sir, Ray Quant.

**Y DIWEDDARAF AM HWB CYMUNEDOL Y BORTH**

352. Croesawyd Helen Williams i'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Hwb Cymunedol y Borth. Mae'r newid enw o Ganolfan Deuluol y Borth yn adlewyrchu'n well yr hyn a wnânt heddiw. Mae'r Hwb yn rhedeg Canolfan Deuluol y Borth, Clwb Ieuenctid y Borth, Cymunedau Sy'n Gofalu y Borth (sy'n cynnal dosbarthiadau celf), grŵp dementia a Sied Ddynion y Borth. Maent hefyd wedi sefydlu grŵp cerdded er lles. Gyda chymorth y Cynghorydd Sir Ray Quant, mae'r Hwb wedi cael bws mini yn ddiweddar, ac mae sawl aelod yn dilyn cwrs gyrwyr bws mini.

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

353. Gofynnodd Mr Mark Williams pa mor hawdd oedd hi i aelodau'r cyhoedd ymuno â chyfarfodydd y cyngor. Rhoddodd y Cynghorydd Hughes ddiweddariad ynglŷn â'r bwriad i gychwyn cyfarfodydd hybrid ym mis Mai. Fodd bynnag, nododd fod y nifer o aelodau'r cyhoedd a oedd yn dod i'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb cyn y pandemig yn isel bob tro. Cytunodd yr Aelodau mai'r ffordd ymlaen yw annog pobl i ymuno a chymryd mwy o ran yn y gymuned, ac i annog y rhai sydd â diddordeb yng ngwaith y Cyngor i ddod i'r cyfarfodydd. Awgrymodd Naomi Salmon y dylid defnyddio rhagor ar y cyfryngau cymdeithasol ac awgrymodd Andrea Hughes y dylid gwahodd sefydliadau i siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned y Borth a chan fod grŵp Borth 2030 bellach yn gorff cyfansoddiadol.

**DATGAN BUDDIANNAU**

354. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod. Datganodd y Cynghorydd Hughes fuddiant wrth drafod yr Eisteddfod Genedlaethol.

**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**

355. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd o bell ar y 7fed o Fawrth. Y cynigydd oedd y Cyng. Morris a'r eilydd oedd y Cyng. Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

**MATERION YN CODI**

356. Dim.

**GOHEBIAETH**

357. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen gweithredu arni gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru Gwrandawiad Cyhoeddus, Cylchlythyr Hwb Cymunedol y Borth, digwyddiadau Ecodyfi ym mis Mawrth, llythyrau oddi wrth Fynwent Capel y Garn, Y Tincer a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth sy'n diolch am y rhoddion ariannol diweddar, Gweminar Trefi Clyfar, Diogelu Enwau Lleoedd Cymraeg, Cau Ffyrdd Dros Dro: C1079 y Borth, Gweminar Trefi Smart, Diogelu Enwau Lleoedd Cymraeg, taflen Elan City ar atebion rheoli traffig ac Offer Campfa Sunshine.

358. Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022. Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Apêl y Borth am gyfraniad ariannol i gyrraedd y nod o £5000. Mae'r pwyllgor wedi codi £4834.50 hyd yma, felly mae angen unioni'r diffyg o £165.50. Roedd Cyngor Cymuned y Borth wedi addo union unrhyw ddiffyg. Cynigiodd y Cynghorydd James y dylid talu'r £165.50, ac eilwyd y cynnig gan y Cynghorydd Morris y cynnig. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

359. Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Cynhelir sesiwn hyfforddi i Glercod ddydd Mercher, y 27ain o Ebrill am 6.30pm.

360. Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dweud mai dydd Llun, y 12fed o Fedi 2022, fydd y diwrnod olaf y gall etholwyr arfer eu hawliau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rhaid i'r ffurflen flynyddol gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i chymeradwyo gan y Cyngor erbyn yr 30ain o Fehefin 2022. Rhaid i'r hysbysiad archwilio gael ei gyhoeddi ar hysbysfwrdd ac ar y wefan am o leiaf 14 diwrnod a rhaid gwneud trefniadau i'r cyhoedd archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau ategol am gyfnod o 20 diwrnod rhwng y 4ydd a'r 29ain o Orffennaf.

361. Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol. Cytunwyd ar ddyfarniadau cyflog cenedlaethol. Bydd y gyfradd gyflogau yn daladwy o'r 1af o Ebrill 2021. Dyfarnwyd codiad cyflog o 17c i'r Clerc sydd ar Bwynt 5 ar y Golofn Gyflog, o £10.04 i £10.21. Cynigiodd y Cynghorydd Bainbridge y dylid derbyn y codiad cyflog newydd, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Griffiths. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

**CYFRIFON**

362. Balans y cyfrifon ar y 14eg o Fawrth

| | |
|---|---|
| Nationwide | 30229.71 |
| Cyfrif Banc Elusennol | 1528.62 |
| Cyfrif Banc Dim Rhybudd | 17561.41 |
| Cyfrif Adnau | 3829.47 |

363. Incwm

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion – grant i'r maes chwarae | 7820.00 |
| Cyfrif Busnes Dim Rhybudd – llog gros hyd 3 Mawrth | 0.47 |
| Cronfa Arian Rhodd y Clerc - llog gros hyd 3 Mawrth | 0.10 |

364. Gwariant – Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Morris a Bates – dogfennau'r gofrestrfa tir | 18.00 |
| Dyfed Alarms Ltd-cynnal a chadw'r camerâu cylch cyfyng yn y Neuadd Gymunedol | 180.00 |
| Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - Cynllun Talu Wrth Ennill Ionawr, Chwefror a Mawrth | 391.60 |
| M Walker-cyflog 531.05, costau swyddfa 17.91 | 548.96 |
| Eisteddfod Genedlaethol | 165.50 |
| Ffioedd y Cyfrif Banc Elusennol | 7.80 |

Y cynigydd oedd y Cyng. Bainbridge a'r eilydd oedd y Cyng. Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

365. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod siec am £23760 i Redlynch Leisure i dalu am offer newydd wedi'i dychwelyd gan nad oedd digon o arian yn y cyfrif HSBC. Gan nad yw'r Clerc yn llofnodwr ar y cyfrif, nid yw'n gallu awdurdodi symud arian rhwng cyfrifon. Nid yw arian yn llifo o'r naill gyfrif HSBC i'r llall bellach, fel yr arferai wneud. Mae'r Cyngor wedi awdurdodi taliadau o £41,000 a mwy yn ystod y tri mis diwethaf ac roedd yr arian yn mynd yn isel yn y cyfrifon hynny. Symudodd y Cynghorydd Dalton, sy'n un o'r llofnodion a enwir ar holl gyfrifon Cyngor Cymuned y Borth, £5000 o gyfrif Nationwide i HSBC i dalu'r siec. Ni ddychwelodd y banc y siec, ac felly llofnodwyd ail siec a'i hanfon at y cwmni. O ganlyniad i ymdrechion y Cynghorydd Dalton, mae'r holl ffioedd wedi'u hepgor ac mae cyfnod rhybudd 95 diwrnod ar y cyfrif Nationwide.

## CYNLLUNIO

366. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.
A220063. Codi Cyntedd, Hideaway, Stryd Fawr, y Borth. **Dim gwrthwynebiad.**
A220148. Tir i'r dwyrain o Renfrew Drive, Ynyslas. Annedd breswyl arfaethedig a gwaith cysylltiedig, gan gynnwys dymchwel adeilad presennol y Weinyddiaeth Amddiffyn. **Mae Cyngor Cymuned y Borth yn argymell cynnal ymweliad safle.** Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd Bainbridge. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

## AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

367. Mae'r Cynghorydd Hughes wedi cael ateb oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i'w lythyr dyddiedig yr 16eg o Chwefror. Gan na chafwyd ymateb boddhaol i'r materion a godwyd yn y llythyr at Gyngor Sir Ceredigion, cynigiodd y Cynghorydd Hughes y dylid anfon llythyr arall yn gofyn i Gyngor Cymuned y Borth fod yn rhan o waith monitro'r banc cerrig mân a'r gwaith ailbroffilio pan fo angen. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Morris a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Rhaid mynd i'r afael hefyd â phryderon sy'n ymwneud ag ailbroffilio'r banc cerrig mân rhwng Cam 1 a Cham 2 ac, yn olaf, pan fydd arbenigwr wedi'i recriwtio i edrych ar y broblem, byddai'r Cyngor yn ddiolchgar iawn pe gallai'r person hwnnw annerch y Cyngor ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben.

## ARWYDDION AR Y PROMENÂD

368. Mae'r mater yn parhau.

## ADOLYGU POLISI YSWIRIANT Y CYNGOR

369. Mae'r mater yn parhau.

## Y WAL GYFERBYN Â SIOPAU PREMIER

370. Mae'r mater yn parhau.

## CYFARFODYDD WYNEB YN WYNEB

371. Bydd y Cyngor yn dechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb fis nesaf gan fod yr offer yn barod i'w osod.

## JIWBILÎ PLATINWM Y FRENHINES

372. Mae mygiau'r Jiwbilî wedi'u harchebu. Ni fydd y Cyngor yn cynnal dim digwyddiadau gan ei bod yn ymddangos bod nifer o bartïon unigol eisoes wedi'u trefnu yn y pentref.

**MATERION Y CADEIRYDD**

373. Soniodd y Cynghorydd Hughes am fferm leol sy'n bwriadu rhyddhau darn o dir y fferm i greu lotmenti. Mae hon yn fenter fasnachol. Mae'r holl fanylion ar gael ar wefan Gwybodaeth Gymunedol y Borth. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc archebu baner Draig Goch newydd ac mae'n bwriadu prynu baner Wcráin i'w gosod o dan faner Cymru. Roedd pob Aelod yn gytûn.

**CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR**

374. Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Bainbridge ynglŷn â chyfarfod diweddar llywodraethwyr yr ysgol. Y gobaith yw y bydd y carnifal yn cael ei gynnal eleni. Diolchodd y Cynghorydd Hughes i Carol am ei holl waith wrth baratoi'r cais am grantiau gogyfer â'r maes chwarae ac am ei gwaith fel llywodraethwr yr ysgol.
Dywedodd y Cynghorydd Dalton wrth yr Aelodau y cynhelir cyfarfod nesaf PACT ar yr 21ain o Ebrill. Mae cyntedd yr orsaf reilffordd wedi'i ail-blastro a'i baentio. Diolchodd y Cynghorydd Hughes i Rona am ei gwaith wrth ddelio â HSBC a Nationwide (gweler cofnod 365).
Mae'r Cynghorydd Pryce Jones wedi cael gwybod nad oedd brêcs ar gadeiriau olwyn y traeth. Mae Ms Rachel Hubbard yn cynnal digwyddiad codi arian i Wcráin ar yr 16eg o Ebrill.
Bydd y Cynghorydd Jones yn bresennol yng nghyfarfod y grŵp Iechyd a Lles ar y 7fed o Ebrill.
Holwyd y Cynghorydd Thomas ynglŷn â chynlluniau i gysylltu'r promenâd rhwng y Borth ac Ynyslas. Dywedodd y Cynghorydd Hughes nad oedd dim yn digwydd ar hyn o bryd.
Dywedodd y Cynghorydd Tweedy mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf fel Aelod o Gyngor Cymuned y Borth gan nad yw'n bwriadu sefyll eto fel Cynghorydd oherwydd pwysau gwaith.
Soniodd y Cynghorydd James fod y gwrych o Dyrhelyg i gopa’r bryn ar Ffordd Clarach wedi tyfu'n wyllt. Dywedodd y Cyng. Hughes y byddai'n sôn wrth y Cyngor Sir am y mater.
Gofynnodd y Cynghorydd Griffiths a fyddai'n bosibl cael bin baw cŵn ger yr eglwys gan fod perchnogion cŵn yn defnyddio'r potiau blodau fel biniau gwastraff. Cododd y sêl gacennau yn yr Eglwys dros £200.

**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

375. Ni ddaeth y Cynghorydd Quant i'r cyfarfod gan fod Cynghorwyr Sir wedi cael gwybod na ddylent fynychu cyfarfodydd fel hyn gan eu bod bellach yn y cyfnod cyn yr etholiad (purdah). Fodd bynnag, anfonodd y Cynghorydd Quant e-bost at y Cynghorydd Hughes â'r diweddaraf am rai materion a godwyd mewn cyfarfodydd diweddar.

**Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA**

376. Gan nad oedd rhagor o faterion i’w trafod, daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben am 9.21pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Lun, y 9fed o Fai 2022 fydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, Arwyddion ar y Promenâd a'r Wal gyferbyn â Siop Premier. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Cyng. Hughes yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.